**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Economy & Infrastructure Policy Development and Delivery Committee

**Committee Room 5 - Guildhall, Swansea**

**Thursday, 12 April 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y CynghoryddV M Evans (Chair) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| N J Davies | L S Gibbard | P R Hood-Williams |
| O G James | J W Jones | W G Lewis |
| P Lloyd | T M White | |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Lisa Wells | Rheolwr Canol y Ddinas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: S M Jones and P M Matthews

---

## 42 Datganiadau o ddiddordebau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau.

## 43 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

## 44 Astudiaeth Dichonoldeb troi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr

Darparodd Rheolwr Canol y Ddinas gefndir yr astudiaeth dichonoldeb mewn perthynas â throi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr a chyflwynodd awduron yr astudiaeth, Mr O Davies a Mr E Smith, Owen Davies Consulting, Element Urbanism.

Darparodd Mr O Davies a Mr I Smith gyflwyniad llawn gwybodaeth a oedd yn manylu ar y:

- Rhaglen
- Gweithgarwch hyd yn hyn
- Ffactorau allweddol a adolygwyd
- Treftadaeth a thirwedd
- Gweithgaredd a defnyddiau
- Diwrnodau tawel a nosweithiau bywiog
- Dosbarthu nwyddau busnesau
- Lliniaru cerbydau diogelwch
- Dylanwad datblygiadau eraill
- Heriau
- Amcanion y cynllun
- Gofynion allweddol
- Y safle (mynediad o'r de/gogledd)
- Coed: Buddion ac effeithiau
- Dadansoddiad o lwybr yr haul
- Cysgod y coed
- Aliniad y ffordd
- Y safle (unffordd, cynllun presennol etc)
- Mannau cyhoeddus
- Llwytho a pharcio
- Presennol
- Ffordd gerbydau wedi'i hail-alinio a'i lleihau
- Arwyneb a rennir
- Hunaniaeth - Cydrannau'r stryd
- Deunyddiau
- Celfi
- Nodweddion goleuadau
- Amrywiol
- Opsiynau i'w harchwilio

Nodwyd mai Opsiwn 2 (h.y. datblygu system unffordd, mewnlenwi'r cilfachau llwytho a chulhau'r ffordd gerbydau bresennol i wneud mwy o le i gerddwyr) oedd yr opsiwn a ffefrir.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, nododd yr Ymgynghorwyr;

- y byddai angen i'r perchnogion gael hawlen i'w caniatáu i osod hysbysebion bwrdd dwbl, mannau eistedd/sefyll y tu allan ac ymraniadau ffiniau rhwng lleoliadau priodol. Byddai hyn yn darparu mwy o reolaeth o'r ardaloedd y tu allan.
- Roedd yn hanfodol bod angen gwneud Stryd y Gwynt yn fwy deniadol i amrywiaeth eang o bobl, gan beidio â cholli'r cynnig gyda'r nos. Byddai hyn yn gofyn am newid mewn diwylliant.
- Nid yw'r prosiect hwn ar wahân i gynlluniau eraill yng nghanol y ddinas (e.e. Y Faner Borffor etc). Mae angen i fusnesau fod yn gyfrifol ac mae ymchwil yn nodi

bod cwsmeriaid sy'n eistedd yn dueddol o yfed llai o alcohol na'r rheiny sy'n sefyll. Gellir gosod amodau ar sefydliadau i gynorthwyo wrth ddatblygu enw da Stryd y Gwynt. Mae llawer o'r gweithredwyr presennol ar Stryd y Gwynt yn sefydliadau cadwyn sy'n gweithredu drwy'r DU, ac felly'n dod ag arfer da drwy eu dulliau o reoli eu sefydliadau.

- Nid yw rhai sefydliadau wedi'u cynnal oherwydd strategaethau gwerthiant (e.e. Idols), fodd bynnag, gall y prosiect annog perchnogion i adnewyddu ac ailddatblygu yn unol â'r sefydliadau eraill ar Stryd y Gwynt.
- Nid yw'r oriau lle bydd y ffordd ar gau ar Stryd y Gwynt wedi'u cytuno arnynt eto, a byddai angen ystyried gofynion gweithredol busnesau, megis amseroedd derbyn nwyddau a'r posibiliad o ymchwiliad cyhoeddus.
- Mae posibiliad y gallai problemau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gael eu mudo i rannau eraill o'r ddinas.
- Roedd treftadaeth yr ardal (yr adeiladau a phresenoldeb y Castell)yn bwerus a dylid cael ei dathlu.
- Gallai ailgyflwyno'r hen gerflun (fel y manylwyd mewn hen luniau o Stryd y Gwynt) fod yn gyfle.
- Ni chyfyngwyd ar yr astudiaeth gan gostau.
- Gallai'r palmentydd presennol gael eu defnyddio ar gyfer y prosiect newydd.
- Gallai'r prosiect gael ei gyflwyno fesul cam.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorwyr am eu cyflwyniad addysgiadol.

Nododd Rheolwr Canol y Ddinas nad oedd unrhyw gyllideb a ddyrennir er mwyn troi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr. Fodd bynnag, os yw'r prosiect yn cael ei gyflwyno mewn camau, gall cyfleoedd fodoli o fewn y cyllidebau presennol a'r ffrydiau ariannu amrywiol.

Ceisiodd y Cyfarwyddwr Lleoedd farn y pwyllgor mewn perthynas â'r opsiynau.

**Penderfynwyd:**

1) Y Cadeirydd i e-bostio aelodau'r pwyllgor yn gofyn am eu barn dim hwyrach na 20 Ebrill 2018;
2) Cylchredodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd gopi o'r cyflwyniad.

## 45 Cynllun Gwaith 2017/2018

Nododd y Cadeirydd fod materion sy'n weddill i'w hystyried yn y cynllun gwaith a cheisiwyd barn mewn perthynas â chyfarfod yn y dyfodol.

Penderfynwyd cynnull cyfarfod arbennig ddydd Mawrth 24 Ebrill 2018 er mwyn ystyried:

1) Adborth aelodau - Astudiaeth Dichonoldeb - Troi Stryd y Gwynt yn barth i gerddwyr

2) Economi ac Isadeiledd PDChP - Datganiad sefyllfa - Diwedd Blwyddyn 2017/2018
3) Cynllun Gwaith Economi ac Isadeiledd PDChP - 2018/2019

Daeth y cyfarfod i ben am 3.27 pm